cyfrifiad 2021

# Diogelu eich gwybodaeth yw ein prif flaenoriaeth

Arolwg a gaiff ei gynnal unwaith bob degawd sy'n rhoi'r amcangyfrif mwyaf cywir o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr yw'r cyfrifiad.

Mae gwybodaeth o'r cyfrifiad yn helpu i benderfynu sut y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u hariannu yn eich ardal, er enghraifft, ysgolion, gwasanaethau iechyd a llyfrgelloedd. Mae hefyd yn helpu elusennau a grwpiau cymunedol i gynllunio gwasanaethau a sicrhau cyllid.

Caiff y cyfrifiad nesaf ei gynnal ym mis Mawrth 2021. Dysgwch fwy yn **www.cyfrifiad.gov.uk**.

## Pwy sy'n cynnal y cyfrifiad?

Caiff y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). SYG yw cynhyrchydd ystadegau swyddogol annibynnol mwyaf y Deyrnas Unedig. Ein prif gyfrifoldebau yw casglu, dadansoddi a rhannu ystadegau am economi a chymdeithas y Deyrnas Unedig, yn ogystal â threfnu'r cyfrifiad.

Mae SYG a'r ystadegau rydym ni'n eu cynhyrchu yn annibynnol ar y llywodraeth. Er ein bod ni'n adrodd i Senedd y Deyrnas Unedig, caiff ein gwaith ei ddiogelu rhag ymyrraeth wleidyddol.

## Byddwn ni'n trin eich data yn ddiogel

Caiff data electronig eu trin ar systemau sy'n cael eu rheoli'n ddiogel i safonau llywodraeth y Deyrnas Unedig ac o fewn rheolaeth SYG. Bydd ffurflenni papur yn cael eu sganio'n ddiogel a'u trosglwyddo i SYG gan gontractwr sy'n bodloni gofynion diogelwch SYG.

## Ni allwch chi gael eich adnabod

Pan fydd SYG yn cyhoeddi ystadegau o'r cyfrifiad, maen nhw'n gwbl ddienw. Nid ydym yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol ac ni ellir eich adnabod drwy ddata o'r cyfrifiad. Mae'r wybodaeth bersonol a roddir gennych fel rhan o'r cyfrifiad wedi'i diogelu gan y gyfraith. Mae'n drosedd i unrhyw un ei rhannu.

Nid yw adrannau'r llywodraeth sy'n ymdrin ag unrhyw geisiadau rydych chi wedi'u gwneud, neu unrhyw daliadau neu wasanaethau rydych chi'n eu cael, yn gallu gweld eich gwybodaeth o'r cyfrifiad. Er enghraifft, ni ellir ei defnyddio i ddylanwadu ar hawliadau budd-daliadau, cais i breswylio, statws mewnfudo na threthi. Ni fydd sefydliadau preifat nac unigolion fel landlordiaid yn gallu cael gafael ar eich gwybodaeth bersonol.

## Ni fyddwn ni byth yn gwerthu eich data

Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio i werthu unrhyw beth i chi nac i ddod o hyd i chi. Ni fyddwn ni byth yn gwerthu eich gwybodaeth chwaith.

Rydym ni'n cadw cofnodion y cyfrifiad yn ddiogel am 100 mlynedd. Dim ond ar ôl hynny y byddant ar gael i genedlaethau'r dyfodol eu gweld, er enghraifft, pobl sydd â diddordeb yn hanes eich teulu.

### Dysgwch fwy

Gallwch ddarllen mwy am y cyfrifiad a sut rydym ni'n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel yn **www.cyfrifiad.gov.uk/preifatrwydd-a-diogelu-data/**